# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.15 y.b., DYDD GWENER, 7FED CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 03/02/2025)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen

Huw Rowlands

Elfed Williams (Cadeirydd)

Edgar Wyn Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd John Brynmor Hughes

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 8

St Tudwals Inn, Abersoch

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **7FED O CHWEFROR 2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – ST TUDWALS HOTEL, STRYD FAWR, ABERSOCH, LL53 7DS** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

**1. <u>CAIS A DDERBYNIWYD</u>**

1.1 Atodir cais am amrywiad i drwydded eiddo St Tudwals, Abersoch, LL53 7DS. Tŷ tafarn a gwesty sydd yn cynnig bwydydd a diodydd i'w gwsmeriaid yw yr eiddo yn nghanol Abersoch. Cyflwynwyd yr amrywiad yma oherwydd gwaith adnewyddu mewnol ac allanol i'r eiddo, ac i wneud mantais o'r cyfle i adolygu cynnwys y drwydded.

1.2 Mae'r ymgeisydd yn ceisio amrywio y drwydded eiddo i: Ychwanegu newidiadau i du fewn a thu allan i'r eiddo i'r drwydded. Mae'r cais hefyd ar gyfer ychwanegu y gweithgaredd trwyddedig o ddangos ffilmiau.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Eiddo Presenol/Current Premises Licence** | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | |
| Dydd Sul/Sunday: 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday: 09:00 – 01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 09:00 – 01:30 | Dydd Sul/Sunday: 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday: 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday: 09:00 – 01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 09:00 – 01:30 |

| **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites** | |
|---|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday: 10:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 10:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 10:00 – 01:00 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday: 10:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 10:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 10:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 10:00 – 01:00 |

| | |
|---|---|
| | **Amseriadau ansafonol: Non-standard timings:**<br>Caniatáu gwerthu i breswylwyr 24 awr y dydd<br>I ganiatáu gwerthu o 10:00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr tan 00:00 ar y 1af o Ionawr |
| **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00 | **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00 |
| **Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 23:00 - 00:00 | **Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 23:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 23:00 - 00:00 |
| **Cerddoriaeth Byw/Live Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00 | **Cerddoriaeth Byw/Live Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00 |
| **Ffilmiau/Films: Tu Fewn :: Indoors** | **Ffilmiau/Films: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn unol a'r drwydded gwreiddiol ac yn cynnwys y canlynol –

- Gosodir arwydd wrth yr allanfeydd yn gofyn i gwsmeriaid adael yr eiddo yn barchus ac yn dawel gan roi ystyried i'w cymdogion.

- Pan gynhelir adloniant rheoledig byw ar ôl 22:00 cedwir y drysau a'r ffenestri ar gau
- Polisi her 25 mewn lle
- Ni chaniateir mynediad i unrhyw gwsmer sy'n cario poteli wedi eu hagor neu wedi eu selio i'r eiddo ar unrhyw bryd tra bod yr eiddo ar agor i'r cyhoedd.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad sydd yn cynnwys y drwydded gwreiddiol.

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Tîm Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Llygredd Gwarchod y Cyhoedd | Sylwadau |

**Sylwadau yr Heddlu**

3.1 Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r newid yng nghynllun y safle na chynnwys ffilmiau i'r gweithgareddau trwyddedig.

3.2 Rydym yn derbyn yr amod i ganiatáu i blant o dan 16 oed ddod i mwn i'r safle neu aros yno ar ôl 22:00 o'r gloch pan fyddant yn aros yn y gwesty neu'n bwyta.

3.3 O dan yr amcan trwyddedu, 'Amddiffyn Plant Rhag Niwed' mae gennym bryderon mewn caniatáu i blant o dan 16 ddod i mewn i'r safle neu aros yno ar ôl 22:00 ar Noswyl Nadolig a Nos Galan (pan nad ydynt yn aros yn y gwesty). Byddwn i'n awgrymu bod bar prysur ar noson brysuraf y flwyddyn o bosib ddim yn lle addas i blant ifanc.

3.4 Awgrymwn fod yr ymgeisydd yn asesu lleoliad CCTV sydd ganddo dan do ac allan wrth ystyried y newid yng nghynllun y safle.

## 4 Sylwadau Gwasanaeth Llygredd, Gwarchod Y Cyhoedd

4.1 Cynllun/Ardal Drwyddedig Arfaethedig

Nodir fod y cais yn cynnig newidiadau yn y cynllun a byddwn yn gwneud y sylwadau canlynol ar gyfer eich ymateb, eglurhad neu reolaeth arfaethedig i gyflawni'r amcanion trwyddedu:

Mae esboniad y bydd ardal y bar allanol yn cael ei symud i'r storfa biniau ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun presennol a ddarperir ac nid yw'n cyd-fynd â'r cynllun gwreiddiol.

Mae'r ardal a ddefnyddir fel maes parcio wedi'i labelu fel gardd gwrw, nid wyf yn ymwybodol o statws cynllunio'r ardal hon ond mae'r cais yn dynodi hyn fel ardal sydd i'w thrwyddedu, eglurwch sut y dylid defnyddio'r ardal hon at y dibenion trwyddedu gan ei bod yn cynyddu'r ardal allanol yn sylweddol. Yn Rhan J eich cais nodir fod gan parhau i ddefnyddio'r ardal hon ar gyfer maes parcio. Byddai'r ardal hon, pe bai trwydded, hefyd yn elwa o'r gallu i gael cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio o dan

ddarpariaethau'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw tan 23:00

4.3 Mae amodau ar y drwydded ar hyn o bryd ond yn ymwneud â chau drysau a ffenestri yn ystod adloniant ar ôl 22:00pm, a nad yw'n rhoi digon o reolaeth dros gynhyrchu sŵn a lluosogi sŵn yn yr amgylchedd allanol at y defnydd arfaethedig yn yr amrywiad. Mae'r safle wedi bod yn destun cwynion sŵn yn flaenorol, yn enwedig yn ystod digwyddiadau dros dro.

4.4 Sŵn Niwsans Cyhoeddus

Codwyd cwynion am sŵn a'u trafod gyda meddianwyr blaenorol y Safle. Gan fod y safle ar gau ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gwynion/ymchwiliadau cyfredol yn parhau. Mae cwynion wedi i'w derbyn yn flaenorol mewn perthynas â sŵn o ddigwyddiadau, cerddoriaeth uchel a lleisiau. Mae tai yn agos i'r ardal, ac yn ystod y nosweithiau ysgafnach o'r haf yn debygol o gael eu heffeithio. Mae eiddo preswyl eraill yn yr ardal gyfagos yn debygol o ddioddef niwsans sŵn gan eu bod yn amlwg yn wahanol o ran cymeriad i'r gwesty masnachol maent yn eu wynebu. Mae diffyg traffig neu sŵn cefndir tebyg, mae'r ardal sydd wedi'i marcio 'gardd gwrw' o fewn metrau i eiddo preswyl ac ni roddir ystyriaeth o fewn y cais i'r mater hwn.

4.5 Mae'r amrywiad yn cynyddu ardal, natur a chapasiti posibl y busnes, a dylid ystyried yn y cais y sŵn posibl a gynhyrchir o daflu gwastraff/poteli yn ystod yr oriau hwyr yn nos.

**Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, ac o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd; argymhellir bod y Pwyllgor yn CANIATAU y cais cyn belled a bod yr ymgeisydd yn cytuno i unrhyw gyfaddawd a awgrymir gan swyddog Adran Gwarchod Y Cyhoedd, ac yr Heddlu.**